CRIST Y BRENIN

ESECIEL 34:11-16, 20-24; SALM 100;
EFFESIAID 1:15-23; MATHEW 25:31-46

● **Gweddi agoriadol**
Down i mewn i'th byrth
gyda diolch,
dyrchafwn dy enw
nid yn y lle hwn yn unig
ond yn ein bywyd bob dydd,
er mwyn i'r byd hwn wybod
bod ein Duw yn deilwng o bob moliant.

● **Moliant**
O, na bai'r byd
yn cydnabod dy enw
ac yn ymuno gyda ni
i addoli a moliannu.

O, na bai'r byd
yn cydnabod ei angen
ac yn edrych tuag atat
am faddeuant
a gras.

O, na bai'r byd
yn amgyffred dy gariad
ac yn troi atat
am waredigaeth
a heddwch.

● **Cyffes**

Am yr holl adegau hynny
pan droesom ein cefnau
ac edrych ffordd arall
wyneb yn wyneb ag angen,
maddau i ni.

Am yr holl adegau hynny
pan allem fod wedi dweud rhywbeth
a dwyn ychydig o gysur,
ac aros yn fud,
maddau i ni.

Am yr holl adegau hynny
pan oedd cymydog yn unig,
a ninnau, yn lle ymweld,
yn cau ein drws,
maddau i ni.

Datglo ein calonnau;
rho i gariad arllwys allan
a gorlifo,
trwy dy ras
a'th drugaredd, fe weddïwn.

● Diolch

Fugail-frenin,
rwyt yn ein harwain
i borfeydd gwelltog
a diogelwch
yn dy deyrnas,
gan groesawu pawb
sy'n dilyn
a'th gydnabod di yn Arglwydd.

Am y fath gariad
a ffyddlondeb
o genhedlaeth i genhedlaeth,
a'th ofal am bawb
sy'n ddefaid dy braidd,
rhown ddiolch i ti.